

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mai 18fed 2016
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Rhian Hughes - Cadeirydd dros dro (RH), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Rhian Hughes (RH), Alwena Roberts a Mark Williams

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Jones, L Davies, M Roberts ac A Rowlands

3. Datgan Ddiddordeb

RH ar drafodaeth Hen Ysgol Llanddona

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed o Ebrill fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. Maldwyn Williams.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 **Cerrig ger Llain Gron** - cerrig dal wedi ei lleoli wrth ochr y ffordd. Dim wedi derbyn unrhyw lythyr gan y perchennog.

5.2 **Llwybr Tai Bach** - perchennog Cherry Tree Cottage wedi codi ffens tu hwnt i gwrtil yr eiddo ac wedi gosod rhwystr i fynedfa'r llwybr cyhoeddus. Hefyd mae sylfaen wedi ei osod ar gyfer y garej cyn i'r cais cynllunio cael ei gymeradwyo.

Derbyniwyd dau gŵyn gan bobl leol ynglŷn ar ffens ar gais cynllunio cyfredol. Penderfynwyd gofyn i adran priffyrdd eu barn am y ffens wrth ddod i fyny at ochr y ffordd, mae yn gwneud y lle yn anniogel i gerddwyr ac ayyb. Hefyd, ydi'r fynedfa yn ddiogel?

5.3 **Fynwent Newydd** - Gwaith wedi ail-ddechrau ar y safle ers 2ail o Fai.

5.4 **Llygaid y Gwynt** - wedi derbyn cwyn bod perchennog Llygaid y Gwynt wedi plannu clawdd newydd tu hwnt i'r cwrtil yr eiddo.

5.5 **Cwyn DH (5/16)** - Iaith Cymraeg, penderfynwyd trafod y mater yma ymhellach yn cyfarfod nesaf.

5.6 **Awdit blynyddol 2015/16** - Clerc i gwblhau erbyn 30/06/16 a hysbysebu hawliau etholwyr.

5.7 **Cyflwr Lonydd lleol** - hollt ar allt Tan Rallt bach ger Cae Maes Mawr. Hefyd lôn yn ddrwg wrth Fferm Cefn ac ar y ffordd rhwng Bryngwyn a lôn Trewiaid a ger Fferm Rhos Isaf. Hefyd mae'r glaswellt yng nghanol y ffordd ger Carwad yn dal o dan y ceir. Yn gyffredinol mae'r ffordd o'r pentref i Fiwmares mewn cyflwr gwael.

5.8 **Llwybr cyhoeddus wrth Capel Peniel (05/16)** - pryder am ddiogelwch y cyhoedd ar hyd y llwybr cyhoeddus 22/029/2 sy'n rhedeg ger y giât at y stablau, bod pobl sy'r marchog ceffylau yn defnyddio'r llwybr fel toriad byr. Llwybr yma i gerddwyr yn unig. Cawsom ateb gan y Cyngor Sir wrth egluro mae gan adran priffyrdd hawl i osod rhwystr fel ffens neu bostyn ar y llwybr troed.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd

Dim adrodd y tro hwn

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C228 - Cais llawn i newid defnydd yr adeilad o gyn Ysgol Gynradd i Neuadd i'r gymuned yn Llanddona – dim gwrthwynebiad.

8. Hen Ysgol Llanddona

RH - cais loteri mynd i mewn ar 25/05/16.

9. Tir Comin

9.1 Gwelfryn (12/15) - cyfreithiwr y prynwr nawr yn gofyn am hawddfaint ychwanegol sy'n cynnwys yr holl ardal rhwng yr eiddo a'r briffordd. Penderfynwyd nid ydi'r cais yn ddigon manwl, ac am ba reswm bod angen hawddfaint ychwanegol. Disgwyl gwybodaeth bellach gan ein cyfreithiwr.

9.2 Hen Ysgol (02/16) - Yn dilyn yr ail-llythyr gan swyddfa gofrestru tir yn gofyn am wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â thir comin Yr Ysgol, disgwyl ymateb oddi wrth Un Llais Cymru. Nid rydym wedi derbyn unrhyw gyswllt pellach gan y Cyngor Sir.

9.4 Glyndŵr - gwaith ychwanegol wedi ei wneud ar fynedfa i'r plot heb ganiatâd a difrod i'r tir comin gerllaw. Berchennog wedi cysylltu ar Clerc, lle maent wedi penderfynu adfer unrhyw ddifrod, ac mae croeso i ymweld ar safle.

10. Cyfrifon

Gwariant

- Anglesey Computer Solution, gynnal y wefan 2016/18 - £240.00
- AON Yswiriant 2016/17 - £243.12
- Hyfforddiant Cynllunio - £25.00

Incwm

- Praesept 1af - £1,716.66

11. Gohebiaeth

- e-bost SH grant SMS
- Llythyr E Evans
- Llythyr M Williams

12. UFA:

12.1 Clerc i hysbysebu gwaith torri llwybrau lleol

12.2 Yswiriant blynyddol - penderfynwyd yn unfrydol i dalu'r yswiriant blynyddol a pheidio â chytuno i ymrwymo i gytundeb hir dymor o dair blynedd.

12.3 RH yn egluro digwyddiad hyfforddi cynllunio ar 26/04/16

12.4 SH wedi gohirio cais SMS oherwydd ni fyddai'n sgorio ddigon uchel i gael drwy rownd gyntaf. Oedd yn gobeithio y bydd y cais ar gyfer safleoedd bywyd gwyllt yn y Ward yn cael ei ddewis i'r ail gam.

12.5 RH yn egluro bod y Cyngor Sir wedi gosod arwydd llwybr cyhoeddus mewn lle amhriodol ger eiddo "Heather Patch" ar Gomin y Rhos.

12.6 Bowlio dan do nawr yn Canolfan Biwmares

12.7 Etholiad Ewropeaidd cymryd lle 23/06/16

12.8 Cais Caeau Canmlwyddiant - penderfynwyd i peidio gymryd rhan

12.9 Contract cynnal a chadw llwybrau troed – Clerc i hysbysebu'r gwaith.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd RH i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.15 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 15/06/16 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad